**ADRODDIAD CABINET**
19 Chwefror 2015

**Aelod Cabinet:** **Y Cynghorydd Peredur Jenkins**

**Pwnc:** **Polisi Tâl**

**Swyddog Cyswllt:** **Dilwyn Williams, Prif Weithredwr**
**Alwyn E Jones, Pennaeth Adnoddau Dynol**

---

## Y penderfyniad a geisir / Pwrpas yr Adroddiad

Gofynnir i'r Aelodau Cabinet argymell i'r Cyngor y dylid:

- cynyddu tâl staff y Cyngor sy'n derbyn y cyflog isaf trwy ddileu'r pwynt cyflog isaf o strwythur tâl y Cyngor.
- ymgorffori'r newid hwn yn natganiad polisi tâl y Cyngor ar gyfer 2015/16 a hefyd argymell sut y dylid ariannu'r newid.

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Y llynedd, bu i'r Cyngor benderfynu dileu dau bwynt cyflog isaf ei strwythur tâl fel cam tuag at geisio cyflwyno'r "Cyflog Byw" fel isafswm tâl. Gwnaed y penderfyniad hwn yn sgîl cais blaenorol gan aelodau'r Cabinet i swyddogion ymchwilio i beth fyddai goblygiadau gweithredu'r "Cyflog Byw" fel rhan o strwythur tâl y Cyngor. Adroddwyd bryd hynny y byddai cydymffurfio'n llawn ar unwaith yn arwain at gostau sylweddol (swm o gwmpas £1m y flwyddyn) ac y byddai'n creu problemau gyda'r strwythur tâl yn nhermau arfarnu swyddi.

1.2 Mae'r Cyflog Byw wedi cynyddu i £7.85 yr awr ers Tachwedd 2014 ac mae'r isafswm cyflog cenedlaethol i weithwyr dros 21 mlwydd oed yn £6.50 yr awr erbyn hyn. Yn sgîl dileu y ddau bwynt cyflog isaf y llynedd a'r codiad cyflog cenedlaethol o 2.2% a ddyfarnwyd i weithwyr llywodraeth leol yn Ionawr eleni, mae'r isafswm cyflog o fewn y Cyngor bellach yn £7.11 yr awr.

2. **Y CYNNIG**

2.1 Yr argymhelliad yw bod y Cyngor yn dileu'r pwynt isaf ar y strwythur tâl (pwynt 7), a fyddai'n golygu bod yr isafswm cyflog y mae'r Cyngor yn ei dalu yn cynyddu o £7.11 yr awr i £7.19 yr awr. Yn nhermau graddfeydd tâl, byddai hyn yn golygu uno graddfeydd cyflog GS1(pwynt 7 sefydlog) a GS2 (pwynt 8 sefydlog). Ni fyddai yna oblygiadau strwythurol yng nghyswllt cyfrifoldebau staff am waith ei gilydd yn deillio o'r newid hwn ac ni fyddai'n tanseilio'r Cynllun arfarnu swyddi.

2.2 Byddai'r cynnydd hwn mewn tâl yn effeithio ar 1,060 o unigolion o fewn y Cyngor gyda'r mwyafrif helaeth ohonynt yn weithwyr rhan-amser.

3. <u>**COST AC ARIANNU**</u>

3.1 Cyfanswm cost y cynnig yw £45,000 – gallai'r gost yn y pen draw fod ychydig yn is oherwydd mae'n bosib y gallai'r Cyngor adennill peth o'r costau oddi wrth drydydd partïon. Bydd y Cyngor yn wynebu'r holl gostau yn 2015/16 gan fod y pecyn wedi'i ddylunio fel bod staff yn derbyn yr holl fuddion mewn un flwyddyn.

3.2 Mae'r Pennaeth Adnoddau Dynol wedi sicrhau memorandwm o ddealltwriaeth gyda cynrychiolwyr yr undebau llafur yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r memorandwm yn ymrwymiad gan yr undebau i ystyried a thrafod posibiliadau i arbed costau o'r amodau a thelerau gwaith lleol. Ar hyn o bryd, mae gan y Cyngor gytundeb i beidio â gweithredu newidiadau i'r amodau a thelerau hyn tan fis Ebrill 2016 ond y syniad tu cefn i'r memorandwm o ddealltwriaeth yw y byddai'r Cyngor wedi paratoi ar gyfer unrhyw newidiadau mewn da bryd i'w gweithredu oddi ar y 1af o Ebrill 2016.

3.3 Nid oes unrhyw sicrwydd ar hyn o bryd ynghylch yr union arbedion y gellir eu gwireddu yn sgil y memorandwm o ddealltwriaeth. Felly, byddai angen ariannu'r pecyn hwn drwy ddulliau eraill ond gyda'r arbedion a wireddir, yn sgil yr ymrwymiad o fewn y memorandwm o ddealltwriaeth, ar gael i helpu lenwi'r bwlch ariannol yn 2016/17.

3.4 Mae modd ariannu'r gost berthnasol o arbedion pellach a gyflawnwyd uwchben y targed wrth leihau uwch reolaeth y cyngor. Mae yna adroddiad ar y mater yma ger bron y cabinet ar 19 Chwefror.

4. **<u>CASGLIADAU AC ARGYMHELLION</u>**

4.1 Mae'r Aelodau Cabinet wedi mynegi dyhead i weld "tegwch" yn un o flaenoriaethau thematig y Cyngor yn y Cynllun Strategol. Mae'r Cyngor eisoes wedi ymrwymo i'r flaenoriaeth thematig hon mewn nifer o feysydd e.e. newidiadau lles, anghydraddoldeb iechyd a chau'r bwlch mewn cyflawniad addysgol. Mae'r cynnig hwn, nid yn unig yn gwbl gyson â'r agenda tegwch ond hefyd yn arddangos bod y Cyngor yn adeiladu ar yr hyn a wnaed y llynedd ac yn cymryd cam pellach tuag at y "Cyflog Byw".

4.2 Felly, argymhellir bod y Cabinet yn argymell i'r Cyngor llawn gymeradwyo'r newid arfaethedig gan ddileu'r pwynt isaf ar y strwythur tâl (pwynt 7), fel cam pellach tuag at y "Cyflog Byw".

---

**Barn y Swyddogion Statudol:**

**<u>Prif Weithredwr</u>:**
Cyd-awdur yr adroddiad

**<u>Swyddog Monitro</u>:**

Mae cyd-ddibyniaeth annatod rhwng rôl y Cabinet wrth osod cyfeiriad polisi a rôl y Cyngor llawn wrth ddarparu cyllid a chytuno datganiad polisi tâl. Mae'r ddau argymhelliad yn yr adroddiad yn cydnabod yn briodol y ddwy rôl wahanol ond gysylltiedig yma. Nid oes materion eraill o briodoldeb yn codi o'r argymhelliad.

**<u>Prif Swyddog Cyllid</u>:**

Rwyf wedi cydweithio gyda'r awduron wrth iddynt baratoi'r adroddiad yma ac rwy'n cadarnhau cywirdeb y cynnwys ariannol.

---